

BWS

AR DRAED



Mae Uned Diogelwch y Ffyrdd yn hybu ac yn annog pob ysgol gynradd i ystyried trefnu bws Ar Draed o fewn eu hysgol.

BETH YW BWS AR DRAED?

Mae 'Bws Ar Draed' yn gadael i grwp neu 'fws' o blant gerdded i'r ysgol yn ddiogel bob bore a/neu brynawn o gartref neu o fan dynodedig diogel a enwyd o dan arweiniad goruchwylwyr mewn oed wedi'u hyfforddi.

Mae'n ddewis arall delfrydol yn lle hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno yn y car, ac mae'n cyd-fynd yn berffaith â nod y llywodraeth o leihau traffig y ffyrdd a thagfeydd ac o ddarparu llwybrau cerdded diogel.

Yn Sir y Fflint rydym yn meddwl bod y Bws Ar Draed yn haeddu ein cefnogaeth gan ei fod yn fuddiol mewn cymaint o ffyrdd; nid yn unig y mae'n mynd â phwysau oddi ar rieni yn y bore, ond mae hefyd yn cyflenwi plant â ffordd iach, addysgol ac amgylcheddol dda o gyrraedd yr ysgol bob diwrnod.

Fe all fod o ddiddordeb ichi glywed hefyd fod ymchwil wedi dangos bod cerdded i'r ysgol yn y bore yn baratoad gwych ar gyfer y diwrnod i ddod.



**MAE'R PLANT
YN CYRRAEDD
YN EFFRO,
BYWIOG A PHAROD
I DDYSGU!**

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

GWYBODAETH I RIENI

Mae Bysiau Ar Draed yn ffordd o hebrwng plant ysgolion cynradd yn ôl a blaen i'r ysgol.

Trwy gymryd rhan mewn cynllun Bws Ar Draed bydd eich plentyn yn helpu i:

- Wella diogelwch y ffyrdd wrth giatau'r ysgol
- Galluogi plant eraill i gael mwy o ymarfer corff ac i ddysgu sgiliau cerddwyr
- Datblygu cyfeillgarwch a sgwrs ymhlith y plant ar y Bws ar draed
- Annog llai o ddefnydd o'r car ar gyfer teithiau byr

Llwybrau

Mae Bysiau Ar Draed yn dilyn llwybrau a gynlluniwyd gyda chymorth peirianwyr diogelwch y ffyrdd a thrafnidiaeth. Mae'r llwybrau'n cynnwys cymaint o gartrefi plant sy'n cymryd rhan ag sy'n bosibl. Byddant yn cadw'r angen i groesi ffyrdd i'r lleiaf posibl ac yn gwneud defnydd o leoedd croesi diogel ble mae'n bosibl.

Cymarebau Helpwyr/Plant

Bydd cyd-drefnydd helpwyr yn gofalu y bydd o leiaf ddau helpwr mewn oed ar bob bws, un ar y tu blaen (y 'Gyrrwr') ac un yn y cefn (y 'Tocynnwr'). Hefyd, bydd un cynorthwy-ydd i bob pump plentyn.

Cael Eich Gweld

Bob amser, bydd y plant a'r helpwyr mewn oed yn gwisgo gwasgodau fflwroleuol/hawdd eu gweld, fel rhan o Gynllun Bws Ar Draed yr Ysgol. Mae hyn nid yn unig oherwydd rhesymau diogelwch, fel bod modd i'r grwp gael ei weld o bellter, ond hefyd i alluogi'r plant i deimlo eu bod yn 'perthyn' o fewn y Bws Ar Draed.

Hyfforddiant

Argymhellir bod eich plentyn yn derbyn Hyfforddiant Diogelwch y Ffyrdd cyn iddynt ddechrau; dylai hyn barhau fel rhan o'u taith ar y Bws Ar Draed*1. Dylid disgwyl hefyd i'ch plentyn gwblhau ac arwyddo 'Nodyn Caniatâd ac Addewid Disgybl'*2 yn dweud y byddant yn ymddwyn yn synhwyrol ac yn dilyn cyfarwyddiau'r helpwyr mewn oed. Byddir yn gofyn i unrhyw blentyn sy'n aflonyddgar, neu'n berygl iddyn nhw'u hunain neu i eraill, adael y Cynllun Bws Ar Draed. Dylai helpwyr mewn oed dderbyn Hyfforddiant Diogelwch y Ffyrdd hefyd a byddant yn derbyn Canllawiau Bws Ar Draed. Rhaid i lwybrau teithio gael eu harchwilio gan yr heddlu yn unol â'r polisi lleol ar gyfer diogelwch plant.

- 1 Mae angen i Hyfforddiant Diogelwch y Ffyrdd gael ei drefnu'n annibynnol gan yr ysgol ac iddo gynnwys y cyngor
- 2 Fe all Nodiadau Caniatâd ac Addewid Disgybl wahaniaethu yn dibynnu ar ddisgresiwn ysgolion unigol

Mae angen tri math o helpwyr mewn oed i gefnogi eich Cynlluniau Bws Ar Draed:

- Cyd-drefnwyr
- Gyrrwr
- Tocynnwr



Mae'r Canllawiau hyn yn egluro'r tair rôl uchod.

■ Cyd-drefnwyr:

Rôl y cyd-drefnwyr yw cydgyssylltu rhwng yr ysgol a'r helpwyr eraill i sicrhau bod y cynllun yn rhedeg yn esmwyth, fe allant fod yn Yrrwr neu'n Docynnwr hefyd (egllurir isod). Ar gyfer ysgolion mwy, fe allai fod yn fwy priodol bod â chyd-drefnydd ar gyfer pob llwybr teithio.

■ GYRWYR:

Helpwyr sy'n arwain y Bws Ar Draed yw Gyrrwyr.

COFIWCH - NID OES GAN HELPWYR BWS AR DRAED UNRHYW BWERAU FFURFIOL I STOPIO TRAFFIG

■ TOCYNWYR:

Rhaid i'r Tocynnwr gerdded y tu ôl i'r grŵp o blant bob amser. Gan fod y Gyrrwr yn ymwneud yn bennaf â llwybr y daith a chadw llygad am beryglon, rhaid i'r Tocynnwr bob amser fod yn ymwybodol o ymddygiad y plant, a sicrhau bod y cyfarwyddiadau a'r gorchmynion a roddir i'r grŵp gan y Gyrrwr yn cael eu cyflawni. Pwyntiau i fod yn wylidwrs yn eu cylch yw:-

- Cadw'r plant oddi wrth ymyl y palmant.
- Gwneud yn siwr nad oes dim plant yn llusgo ar ôl, yn arbennig wrth groesi'r ffordd.
- Dylai unrhyw ddadleuon gael eu lladd yn yr egin cyn bod gwthio a phwnio'n dechrau.
- Trosglwyddo negeseuon na chawsant eu clywed oddi wrth y gyrrwr.
- Sicrhau nad yw plant yn difrodi eiddo.

I gael mwy o wybodaeth neu os hoffech ystyried trefnu bws ar draed yn eich ysgol leol, cysylltwch â Claire Parry yn Uned Diogelwch y Ffyrdd, Cyngor Sir y Fflint ar **01352 704529** ar unwaith os gwelwch yn dda.